

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Adolygiad Cenedlaethol o Atal Argyfyngau Iechyd Meddwl yn y Gymuned 2020-21

Cylch Gorchwyl

Wrth gynnal yr adolygiad cenedlaethol hwn, bu'n rhaid i wasanaethau iechyd a gofal ledled Cymru ateb heriau pandemig byd-eang Covid-19. Yn sgil y sefyllfa sydd ohoni rhoddwyd pwysau unigryw, nas gwelwyd o'r blaen, ar y system a fydd yn parhau dros y gaeaf. Bydd yr adolygiad yn ystyried sut mae gwasanaethau wedi addasu a newid i ymdopi â'r pwysau hyn.

Cefndir

Yn ei Chynllun Gweithredu ar gyfer 2019-2020¹, ymrwymodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i raglen o adolygiadau cenedlaethol, gan gynnwys argyfyngau mewn meddwl. Roedd y penderfyniad i gynnal yr adolygiad hwn yn seiliedig ar nifer o bryderon yn ymwneud â gallu pobl i gael gofal amserol, i'w hatal rhag cyrraedd sefyllfa o argyfwng gyda'u hiechyd meddwl.

Mae AGIC eisoes wedi nodi bod mynediad cychwynnol at wasanaethau iechyd meddwl yn faes y mae angen ei wella. Pwysleisiodd ein hadroddiad cenedlaethol ar gyfer 2019, Cyd-adolygiad Thematig o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol² nad oedd rhai gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol yn meddu ar ddigon o wybodaeth, gyda'r ystod o wasanaethau atgyfeirio ar gael i bobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl.

Nododd ein hadolygiad ar Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn 2018³ heriau sylweddol ynghylch gweithio hollataidd mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Nodwyd problemau gyda rhestrau aros hir ar ôl i gleifion cael eu hatgyfeirio i wasanaethau iechyd meddwl, a nododd y staff yn y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau bryderon fod y broses atgyfeirio'n rhy gymhleth ac anghyson weithiau. Yn ogystal â hyn, argymhellwyd bod angen i'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a'r timau iechyd meddwl gydgyssylltu'n well mewn rhai ardaloedd yng Nghymru.

¹ <https://agic.org.uk/sites/default/files/2019-06/190412operationalplan1920cy.pdf>

² <https://agic.org.uk/sites/default/files/2019-06/190207joint-thematic-review-community-mental-health-cy.pdf> Cynhaliwyd yr adolygiad ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru

³ <https://agic.org.uk/sites/default/files/2019-06/180725smcy.pdf>

Gwnaeth Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010⁴ ddarparu ar gyfer ehangu ac atgyfnerthu gwasanaethau iechyd meddwl ar lefel gofal sylfaenol. Y meddyg teulu yn aml yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd meddwl, ac mae'r gofal maent yn ei ddarparu mewn lleoliadau lleol yn helpu i normaleiddio problemau iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall sefydliadau trydydd sector fod yn bwynt cyswllt cyntaf i rai pobl hefyd, er na allant atgyfeirio pobl yn uniongyrchol i wasanaethau gofal sylfaenol y GIG ar hyn o bryd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fodel Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol⁵ ym mis Awst 2011. Nod y gwasanaethau hyn oedd gwella mynediad a chanlyniadau cleifion ar gyfer gofal iechyd meddwl mewn lleoliadau gofal sylfaenol. At hynny, mae'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ar gyfer 2019-2022⁶ yn nodi nifer o flaenoriaethau, gan gynnwys sicrhau bod mwy o fesurau ataliol a dulliau ymyrryd yn gynnar ar gael i hyrwyddo'r broses adfer. Mae'r Concordat Gofal Mewn Argyfwng Iechyd Meddwl⁷, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn 2015, yn nodi datganiad a rennir o ymrwymiad i wella gwasanaethau iechyd meddwl ym maes gofal sylfaenol, a chaiff ei gymeradwyo gan uwch-arweinwyr o'r sefydliadau sy'n cyfrannu fwyaf at y gwaith o ymateb i'r rhai sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl.

Ystyried gwaith gan sefydliadau eraill

Ers i ni benderfynu cynnal yr adolygiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ffrydiau eraill o waith, sy'n cynnwys y canlynol:

- Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) sy'n cynnal yr Adolygiad o Fynediad a Chludiant Brys ar gyfer Iechyd Meddwl; i'w gwblhau yn 2021
- Mae Uned Gyflenwi'r GIG yn cynnal Adolygiad Cyswllt Seiciatrig a Gofal mewn Argyfwng Cymru Gyfan ar gyfer 2020-21, a chaiff ei waith ei gynnal ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Mae deall y gwaith parhaus a'r gwaith wedi'i gynllunio a wneir gan randdeiliaid a phartneriaid eraill mewn gwasanaethau iechyd meddwl wedi bod yn ystyriaeth allweddol wrth lywio ffocws ein hadolygiad cenedlaethol. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall ein gwaith ychwanegu gwerth i'r hyn sy'n hysbys neu'r hyn nad yw'n hysbys yn yr ardal, ac i beidio â dyblygu unrhyw waith parhaus neu waith wedi'i gynllunio ym maes gofal brys neu argyfwng mewn iechyd meddwl.

⁴ <https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/7/contents>

⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/national-service-model-for-local-primary-mental-health-support-services.pdf>

⁶ https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/law-yn-llaw-at-iechyd-meddwl-cynllun-cyflawni-2019-22_0.pdf

⁷ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/mental-health-crisis-care-concordat.pdf>

Cwmpas a Methodoleg

Mae ein hymchwil, a'n dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r trydydd sector wedi helpu i lywio'r prif gwestiwn y bydd ein hadolygiad yn ceisio'i ateb, sef:

- A yw argyfwng iechyd meddwl yn y gymuned yn cael ei atal drwy ofal amserol a phriodol?

Drwy gydol yr adolygiad, byddwn yn ystyried y canlynol:

- Profiadau'r bobl sy'n cael gofal a thriniaeth

Bydd hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau ym mhob bwrdd iechyd ledled Cymru yn gwneud y canlynol:

- Darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol er mwyn helpu i atal argyfwng iechyd meddwl
- Deall y cryfderau a'r meysydd i'w gwella er mwyn helpu i atal argyfwng iechyd meddwl

Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y cymorth a ddarperir gan feddygon teulu a wasanaethau'r GIG ledled Cymru i atal argyfyngau meddwl, a'r hyn y mae sefydliadau trydydd sector yn ei wneud i gefnogi hyn. Byddwn yn gwrandao ar brofiadau pobl, eu rhieni a'u teuluoedd i gael eu barn am y gwasanaethau maent yn eu cael er mwyn helpu i reoli eu cyflwr iechyd meddwl ac atal argyfwng. Byddwn hefyd yn ystyried pa mor dda y mae gwasanaethau yn cydweithio i ddarparu gofal holistaidd. Bydd yr adolygiad cenedlaethol yn casglu tystiolaeth mewn sawl ffordd dros y flwyddyn nesaf.

Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried tystiolaeth o arferion da a meysydd i'w gwella o'n hadolygiadau blaenorol, a'n gwaith arolygu arferol ac adweithiol mewn gwasanaethau iechyd meddwl, ac hefyd gan bartneriaid, rhanddeiliaid a gwasanaethau trydydd sector.

Cam 1

Bydd Cam 1 yn ystyried y dystiolaeth ac unrhyw themâu a ddaw i'r amlwg o raglen o waith i archwilio gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol ledled Cymru. Bydd y ffocws ar y gofal a'r cymorth sydd ar gael i gleifion mewn sefydliadau sylfaenol, cymunedol a thrydydd sector.

Bydd y gwaith hwn yn cynnwys y canlynol:

- Rhyngweithio ag Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol y GIG, Uned Cyflenwi'r GIG ac Arolygiaeth Gofal Cymru
- Adolygiad o'r arolygiadau neu adolygiadau perthnasol a gynhaliwyd gan AGIC yn ystod y 36 mis diwethaf

- Arolygon cyhoeddus a phroffesiynol cenedlaethol
- Cyfweiliadau gyda cynrychiolwyr byrddau iechyd a meddygon teulu

Byddwn yn lansio arolwg cenedlaethol cyhoeddus, wedi'i datblygu gyda mewnbwn gan Gyngor Iechyd Cymuned Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Y nod yw casglu profiadau unigolion sydd wedi defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth iechyd meddwl ledled Cymru.

Caiff arolwg proffesiynol ei lansio hefyd i gasglu barn y staff sy'n gweithio yn y lleoliadau cymunedol perthnasol a gwasanaethau eraill er mwyn helpu pobl gyda'u hiechyd meddwl.

Hefyd, caiff yr arolygon hyn eu cyhoeddi ar ein gwefan a'u rhannu â darparwyr gofal iechyd fel y bo'n berthnasol.

Cam 2

Caiff hwn ei lywio gan y gwaith a wnaed yn ystod Cam 1 a bwriedir iddo gynnwys y canlynol:

- Cyfweiliadau neu grwpiau ffocws gyda meddygon teulu a staff gwasanaethau iechyd meddwl
- Cyfweiliadau neu grwpiau ffocws gyda sefydliadau trydydd sector yng Nghymru
- Grwpiau ffocws gyda defnyddwyr gwasanaethau

Ar ôl cwblhau'r adolygiad cenedlaethol, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn 2021.

Gweithio gyda sefydliadau eraill

Byddwn yn ceisio cydweithio ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y Cynghorau Iechyd Cymuned a sefydliadau trydydd sector, er mwyn ymgysylltu â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, eu partneriaid a'u teuluoedd, er mwyn deall eu profiadau o wasanaethau iechyd meddwl ledled Cymru.

Byddwn yn cydgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn ar adegau allweddol drwy gydol yr adolygiad, er mwyn rhannu cynlluniau a sicrhau bod unrhyw gyfleoedd i gydweithio yn cael eu hystyried er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion yn ddiangen ac i rannu canfyddiadau ar ôl cwblhau gwaith maes.

Cynllunio

Rydym wedi sefydlu grŵp cyfeirio iechyd meddwl i lywio'r adolygiad. Bydd y grŵp hwn yn rhoi cyngor a chymorth i'n bwrdd prosiect mewnol yn ôl yr angen, wrth weithredu'r adolygiad o ddydd i ddydd.

Amserlen

Dechreuodd y gwaith cwmpasu ac ymchwil ar gyfer yr adolygiad yn ystod 2019. Parhaodd y gwaith datblygu drwy 2020 gyda'r bwriad o weithredu'r adolygiad ar

ddiwedd y flwyddyn, gan barhau i mewn i 2021. Bydd y dasg o ddadansoddi'r canfyddiadau yn cael ei wneud yn ystod gwanwyn 2021, gan gyhoeddi'r adroddiad yn ystod yr hydref 2021.

Gellir diwygio methodoleg yr adolygiad yn ystod yr adolygiad, er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar bandemig COVID-19 – gall hyn effeithio ar amserlenni'r adolygiad.

Dadansoddi ac adrodd

Daw'r adolygiad i ben drwy gyhoeddi adroddiad cenedlaethol yn ystod haf 2021. Bydd yr adroddiad terfynol yn amlygu themâu ac argymhellion allweddol a nodwyd drwy gydol ein harolygiad. Mae'n bosibl y bydd yr adroddiad yn gwneud argymhellion er mwyn i ddarparwyr gofal iechyd, rhanddeiliad eraill a Llywodraeth Cymru eu hystyried a'u rhoi ar waith.

Os nodir unrhyw bryderon brys, caiff y rhain eu codi'n brydlon gyda'r byrddau iechyd, y darparwyr gwasanaeth neu Lywodraeth Cymru.

Cyhoeddi ac ymgysylltu

Cyhoeddir unrhyw adroddiadau tynnu sylw eu ar ein gwefan a chaiff strategaeth gyfathrebu ei datblygu i wella cyhoeddusrwydd.

Bydd tudalen we bwrpasol ar gyfer yr adolygiad atal argyfwng iechyd meddwl yn cael ei datblygu ar ein gwefan, gyda diweddariadau ar ganfyddiadau allweddol yr adolygiad. Byddwn hefyd yn defnyddio nifer o adnoddau a sianeli cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r ffordd y gall pobl gymryd rhan yn yr arolwg cenedlaethol a gweithgareddau ymgysylltu. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol terfynol, bydd digwyddiadau dilynol, ymgysylltu a dysgu yn cael eu hystyried.

Data personol

Mae'r adolygiad hwn yn rhan o'n gwaith i ddarparu sicrwydd annibynnol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhan II, Pennod 4) yn rhoi'r pŵer i AGIC gynnal arolygiadau ac adolygiadau o'r GIG neu wasanaethau a ddarperir i'r GIG, ac ymchwilio iddynt.

Pan fyddwn yn prosesu data personol, bydd hyn yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn hysbysiad preifatrwydd AGIC ar ein gwefan <https://agic.org.uk/polisi-preifatrwydd>.